



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Cyfarfod Bwrdd Teithio Llesol: 14 Mai 2020

Crynodeb o funudau'r cyfarfod a chynhaliwyd ar 14 Mai 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Mai 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Mai 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-teithio-llesol-14-mai-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Negeseuon ynghylch COVID-19

Cronfa ymateb COVID-19 ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy i awdurdodau lleol

Cynlluniau E-feiciau

Negeseuon ynghylch COVID-19

Cododd y Bwrdd y mater o negeseuon dryslyd ynghylch ymarfer corff yn ystod y cyfnod clo. Cadarnhawyd bod y cyfeiriad at feicio o fewn pellter cerdded o gartref wedi'i dynnu o'r canllawiau.

Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod angen i negeseuon osgoi canolbwyntio'n ormodol ar oedolion a dylai'r iaith a'r arweiniad adlewyrchu'r ffaith bod plant yn treulio'u hamser yn yr awyr agored mewn ffordd wahanol e.e. yn i chwarae yn hytrach nag ymarfer corff. Dylai'r negeseuon hefyd fod yn gynhwysol, gan adlewyrchu bod rhai pobl yn defnyddio sgwteri trydan a chadeiriau olwyn trydan ar gyfer ymarfer corff.

Cronfa ymateb COVID-19 ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy i awdurdodau lleol

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn ystod cyfnod ymgeisio'r gronfa uchod. Esboniwyd y rhesymau a'r broses ymgeisio wrth y Bwrdd, a oedd yn cefnogi'r drefn a oedd yn cael ei dilyn.

Derbyniwyd cyfanswm o 209 o ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer mesurau unigol neu bwndeli o fesurau, gwerth cyfanswm o £45,651,459. Cafwyd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-teithio-llesol-14-mai-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

datganiadau o ddiddordeb gan bob awdurdod lleol.

Pwysig: Yn dilyn y cyfarfod, cyhoeddwyd y cynlluniau llwyddiannus: **£15 miliwn ar gyfer teithio di-Covid**

Nododd Sustrans y bydd eu rhaglen 'spaces to move', sy'n casglu data ar gyfer pob ymyriad dros dro, yn eu galluogi i fonitro'r effaith.

Cynlluniau E-feiciau

Cafodd y Bwrdd wybod am fwriad Llywodraeth Cymru i ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno cynllun grant ar gyfer e-feiciau. Rhagwelir y byddai'n cael ei ariannu o'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn. Gofynnwyd i'r Bwrdd am eu barn a'u hawgrymiadau ar y ffordd orau o gymell pobl i ddefnyddio beiciau trydan ac yn benodol, sut y gellid targedu aelwydydd incwm isel.

Cafwyd trafodaeth ynghylch uchelgais y cynllun ac a ellid rhoi grantiau i elusennau neu fentrau cymdeithasol. Nodwyd hefyd y dylai unrhyw gynllun hefyd fod yn agored i bobl hunangyflogedig a phobl ddi-waith.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod gweithwyr cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn gallu prynu e-feiciau o dan y cynllun ers codi'r cap canolog ar gost prynu o dan y cynllun Beicio 2. Roedd cytundeb cyffredinol y dylid annog pobl i ddefnyddio'r cynllun. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r pwysau pe bai grant yn cael ei gynnig i aelwydydd preifat.

Dyddiad y cyfarfod arferol nesaf: 24 Medi 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-teithio-llesol-14-mai-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Cyfarfod Bwrdd Teithio Llesol: 14 Mai 2020](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-teithio-llesol-14-mai-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cyfarfod-bwrdd-teithio-llesol-14-mai-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).